# LOCWS International Projects 2011

**7 - 30 OCTOBER 7 - 30 HYDREF**

To coincide with the Swansea Festival of Music & the Arts, 'Locws International Projects 2011' is an exhibition of new temporary artworks by a selection of Welsh and international artists in public spaces across the City of Swansea.

Each of the invited artists has responded to aspects of the culture and heritage of the city to create their new works in a variety of unexpected and intriguing locations. The exhibition presents the viewer with a journey across Swansea, one based not only on geographical location but also on cultural and social history, touching on a diverse range of subjects that all have relevance within the city.

Our thanks goes to all the artists for their visionary input in creating this exhibition and to all the people involved in ensuring its realisation, our supporters, funders and volunteers and the City & County of Swansea for allowing us to use the city in such a creative and open way.

David Hastie, Director, LOCWS International, 2011

I gyd-fynd â Gŵyl Gerdd a Chelfyddydau Abertawe, mae 'Prosiectau Locws Rhyngwladol 2011' yn arddangosfa o weithiau celf dros dro, gan ddetholiad o artistiaid Cymreig a rhyngwladol, sydd wedi'i leoli mewn mannau cyhoeddus ar draws dinas Abertawe.

Mae pob un o'r artistiaid gwadd wedi ymateb i agweddau o ddiwylliant a threftadaeth y ddinas er mwyn creu eu gwaith newydd mewn amrywiaeth o leoliadau annisgwyl a ddiddorol. Mae'r arddangosfa yn tywys y gwyliwr ar daith ar draws Abertawe, sydd yn seiliedig nid ar leoliad daearyddol yn unig, ond hefyd ar hanes diwylliannol a chymdeithasol, ac yn cyffwrdd ar ystod eang o bynciau, pob un yn berthnasol i'r ddinas.

Diolchwn i'r holl artistiaid am eu mewnbwn gweledigaethol wrth greu'r arddangosfa hon, ac i'r holl bobl sydd wedi bod yn rhan o'i wireddu, ein cefnogwyr, ein cyllidwyr a'n gwirfoddolwyr, yn ogystal â Dinas a Sir Abertawe, am ein galluogi ni i ddefnyddio'r ddinas yn y fath ffordd creadigol ac agored.

David Hastie, Cyfarwyddwr, LOCWS Rhyngwladol 2011

# About LOCWS International
# Gwybodaeth am LOCWS Rhyngwadol

LOCWS International works with international and Welsh artists to create new contemporary artworks that respond to the culture and heritage of the City of Swansea.

With Support from the Arts Council of Wales, City & County of Swansea, National Lottery, Welsh Government, National Museum Wales, Esmée Fairbairn Foundation and the David & Christopher Lewis Foundation. In Partnership with the Swansea Festival of Music and the Arts, National Waterfront Museum, CADW, Swansea Arts In Education, Oyster Education, Swansea Creative Hub and Coastal Housing Group. With Sponsorship from Morgan Signs.

Mae LOCWS Rhyngwladol yn gweithio gydag artistiaid o Gymru a gweddill y byd i greu gweithiau celf a phrosiectau cyfoes newydd sy'n ymateb i ddiwylliant a threftadaeth dinas Abertawe.

Gyda chymorth Cyngor Celfyddydau Cymru, Dinas a Sir Abertawe, Loteri Genedlaethol, Lywodraeth Cymru, Amgueddfa Cymru, Sefydliad Esmée Fairbairn ac Sefydliad David a Christopher Lewis. Mewn partneriaeth â Gŵyl Gerdd a Chelfyddydau Abertawe, Amgueddfa Genedlaethol Y Glannau, CADW, Y Celfyddydau mewn Addysg Abertawe, Oyster Addysg, Hwb Creadigol Abertawe ac Grwp Tai Coastal. Gyda nawdd Morgan Signs.

**LOCWS International**
16 J Shed
Kings Road
Swansea SA1 8PL

Tel: + 44 (0)1792 468979
info@artacrossthecity.com
www.artacrossthecity.com

# ART ACROSS THE CITY SWANSEA

# CELF AR DRAWS Y DDINAS ABERTAWE

## LOCWS International Projects 2011

**7 - 30 OCTOBER 7 - 30 HYDREF**

**NEW CONTEMPORARY ARTWORKS IN SITES ACROSS THE CITY**

**GWEITHIAU CELF CYFOES NEWYDD MEWN SAFLEOEDD AR DRAWS Y DDINAS**

**WWW.ARTACROSSTHECITY.COM**

## NEW ARTWORKS
## CELF NEWYDD

**1 BRISTOW LLOYD**
**'COMING SOON'**
232 HIGH STREET
232 STRYD FAWR

**2 HOLLY DAVEY**
**'WE SPEAK EVERYWHERE'**
SWANSEA CASTLE
CASTELL ABERTAWE

**3 HELEN EDLING**
**'SJUNG SJÖNG SJUNGIT' & 'HEMHÖRIGHETER'**
NATIONAL WATERFRONT MUSEUM
AMGUEDDFA GENEDLAETHOL Y GLANNAU

**4 MARK FOLDS**
**'DYLAN'S PENCIL'**
CWMDONKIN PARK
PARC CWMDONKIN

**5 S MARK GUBB**
**'AMBITION IS CRITICAL'**
CITY BUS STATION
GORSAF FYSUS DINAS

## GALLERIES & PERMANENT PROJECTS
## ORIELAU A PROSIECTAU PARHAOL

**6 BERMINGHAM & ROBINSON**
**'THE BRITISH EMPIRE PANEL PROJECT'**
BRANGWYN HALL NEUADD BRANGWYN

**7 NIAMH McCANN**
**'FLOCK OF OSPREYS LOOKING FOR THE OLD BLIND SEA CAPTAIN...'**
DYLAN THOMAS THEATRE THEATR DYLAN THOMAS

**8 BEDWYR WILLIAMS**
**'LIONHEART & LIGHTSOUT'**
THE KINGSWAY FFORDD Y BRENIN

**9 ELYSIUM GALLERY**
**'SIMULACRUM'** INTERNATIONAL PHOTOGRAPHY
31 CRADDOCK STREET
WED-SAT 12:00PM-5:00PM. UNTIL 22 OCTOBER

**10 MISSION GALLERY**
**'ALEX DUNCAN: SURGE'** SOLO EXHIBITION
GLOUCESTER PLACE
TUES-SUN 11:00AM-5:00PM

## EXHIBITIONS & EVENTS
## ARDDANGOSFEYDD A DIGWYDDIADAU

**11 LOCWS SCHOOLS EXHIBITION**
**ARDDANGOSFA YSGOLION**
CIVIC CENTRE CANOLFAN DDINESIG
MON-FRI 9:00AM-5:00PM, SAT-SUN 10:00AM-4:00PM

**12 LOCWS ILLUSTRATED TALK**
**SGWRS Â DARLUNIAU LOCWS**
**WEDNESDAY 19 OCTOBER 1:00PM**
DYDD MERCHER 19 HYDREF 1:00PM
GLYNN VIVIAN ART GALLERY ORIEL GLYNN VIVIAN

**FREE GUIDED WALKS**
**AM DDIM DYWYS TEITHIAU CERDDED**
FOR DETAILS AND TO BOOK A PLACE CALL 01792 468979
FFONIWCH AR 01792 468979 I GADW'CH LLE





## BRISTOW LLOYD

### ‘COMING SOON’

232 HIGH STREET
232 STRYD FAWR

Bristow Lloyd’s new mural work on the High Street, ‘Coming Soon’, announces that something will be happening in the near future but leaves the viewer unsure of what that change is, who will bring it and when it will come? The statement sits within the changing social and economic landscape of the street, on which some shops and social spaces have closed down while other spaces are being renovated or redeveloped.

Bristow Lloyd capture this sense of flux and create an air of anticipation about what the future might hold, encouraging viewers to think about their expectations of what is coming next and reflect on the process of transformation in which the old High Street, at some point soon, will give way to something different.

Mae murlun newydd Bristow Lloyd, ‘Coming Soon’, sydd wedi’i leoli ar y Stryd Fawr, yn cyhoeddi fod rhywbeth yn mynd i ddigwydd yn y dyfodol agos, ond yn gadael yr wyliwr yn ansicr o’r hyn sy’n newid, pwy fydd yn achosi’r newid, a phryd fydd yn digwydd? Mae’r datganiad yn sefyll rhwng tirwedd economaidd a chymdeithasol newidiol y stryd, ble bu’n rhaid i rai siopau a mannau cymdeithasol gau, tra bod eraill yn cael eu hadnewyddu, neu eu hailddatblygu.

Mae Bristow Lloyd yn cipio’r ymdeimlad yma o newid ac yn creu awyrgylch o ddisgwyliad am beth fyddai’r dyfodol yn dod, gan annog gwylwyr i feddwl am eu disgwyliadau am yr hyn fydd yn dod nesaf, ac i fyfyrio ar y broses o drawsnewid, a fyddai’n arwain i’r hen Stryd Fawr, ar rhyw adeg cyn hir, ildio i rhywbeth wahanol.



## HOLLY DAVEY

### ‘WE SPEAK EVERYWHERE’

SWANSEA CASTLE
CASTELL ABERTAWE

Holly Davey’s photographic artwork sited within the grounds of Swansea Castle stems from her discovery that part of the castle tower was used as a dovecote. Davey uses the symbol of a dove representing peace, hope and divinity, to reconnect the castle with its past and the events it managed to survive.

Orchestrating a ceremonial dove release from within the castle, Davey captures the moment and presents us with a striking billboard image. Easily misunderstood as advertising within the context of the consumerism of the inner city, she gives the castle a new voice, allowing it to convey its message of history as well as reminding us to be mindful of our future.

Mae gwaith ffotograffig mawr newydd Holly Davey, wedi’i leoli o fewn tir Castell Abertawe, ac yn deillio o’i ddarganfyddiad fod rhan o dŵr y castell arfer gael ei ddefnyddio fel colomendy. Defnyddia Davey symbol y golomen i gynrychioli heddwch, gobaith a diwinyddiaeth er mwyn ailgysylltu’r castell gyda’i orffennol, a’r digwyddiadau y lwyddodd i oroesi, drwy ddefnyddio fformat modern, sef hysbysfwrdd.

Wrth gyfansoddi ryddhad seremonïol y golomen o fewn y gastell, mae Davey yn cipio’r foment ar ffilm, ac yn ein cyflwyno ni a delwedd trawiadol. Gan ei fod yn hawdd i gamddeall y darn am hysbyseb, o fewn cyd-destun prynwriaeth canol y ddinas, gallai Davey rhoi ‘llais’ i’r castell, ac ei alluogi i gyfleu ei neges o hanes a phwrpas, ac o beth ddylen ni fod yn ofalus yn y dyfodol.



## HELEN EDLING

### ‘SJUNG SJÖNG SJUNGIT’ & ‘HEMHÖRIGHETER’

NATIONAL WATERFRONT MUSEUM
AMGUEDDFA GENEDLAETHOL Y GLANNAU

Swedish artist Helen Edling’s two new installations respond to artworks by the Polish artist Josef Herman, whose work was inspired by the mining community of Ystradgynlais where he lived between 1944 and 1955.

Using the museum in unexpected ways, Helen Edling presents the viewer with a series of playful theatrical scenarios, ranging from small scenes of family life and work to a mischievous flock of miners’ canaries who are in the process of ‘stealing’ Herman’s painting ‘Miners Singing’. Edling references Herman’s romantic ideas of the heroism of labour but gives the archetypes he portrays of ‘miner’ and ‘pregnant woman’ a new way of being experienced and considered.

This project is part of ArtShare Wales, Amgueddfa Cymru’s visual arts partnership scheme, funded by the Esmée Fairbairn Foundation.

Mae dau gosodiad newydd Helen Edling yn ymateb i weithiau celf gan yr artist Pwylaidd Josef Herman, a gafodd ei ysbrydoli gan y gymuned lofaol yn Ystradgynlais lle buodd e’n byw rhwng 1944 a 1955.

Gan ddefnyddio’r amgueddfa mewn ffyrdd annisgwyl, mae Helen Edling yn cyflwyno’r gwyliwr gyda chyfres o sefyllfaoedd theatrig a chwareus, sy’n amrywio o olygfeydd bychain o fywyd a gwaith teuluol, i ddiadell direidus o ganeris glowyr sydd yn y broses o ddwyn paentiad Herman, ‘Miners Singing’. Mae gwaith Edling yn cyfeirio at syniadau rhamantaidd Herman o arwriaeth lafur, ond yn cynnig ffordd newydd o weld ac ystyried y cynddelwau y mae’n portreadu o ‘löwr’ a ‘merch feichiog’.

Mae’r prosiect hwn yn rhan o ArtShare Cymru, cynllun partneriaeth celfyddydau gweledol Amgueddfa Cymru, a ariennir yn hael gan Sefydliad Esmée Fairbairn.







## MARK FOLDS
### ‘DYLAN’S PENCIL’
CWMDONKIN PARK
PARC CWMDONKIN

During Mark Folds’ research visit to Cwmdonkin Park, he was inspired by the presence of a large tree stump standing at over 30 foot high, as well as the long association the park has with the poet Dylan Thomas. The poet is known to have written many of his early works in or about Cwmdonkin Park in the 1930’s, no doubt using pencil and paper and possibly under this actual tree.

Mark Folds’ new sculpture, ‘Dylan’s Pencil’, represents simple, humble beginnings: initial ideas jotted down on paper by a writer; the sketches made by an artist; the starting point for all types of creativity. The aim of the work is to engage people in thinking that something amazing, such as Dylan Thomas’ poetry, emerged from something so basic in this place.

Yn ystod ymweliad ymchwil Mark Folds i Barc Cwmdonkin, cafodd ei ysbrydoli gan boncyff coeden mawr, dros 30 troedfedd o uchder, yn ogystal â’r cysylltiad hir sydd gyda’r pharc a’r bardd, Dylan Thomas. Mae’n hysbys bod y bardd wedi ysgrifennu llawer o’i weithiau cynnar yn y parc, neu o gwmpas yr ardal, yn ystod y 1930au, gan ddefnyddio papur a phensil, yn ôl pob tebyg, ac efallai hyd yn oed dan yr union goeden hon.

Mae cerflun newydd Mark Folds, ‘Dylan’s Pencil’, yn cynrycholi dechreuadau syml, ostyngedig: syniadau cychwynnol, wedi’i nodi ar bapur gan awdur; brasluniau a wnaed gan artist; y mannau cychwyn ar gyfer pob math o greuadigrwydd. Nod y darn yw i annog pobl i feddwl bod rhywbeth mor ryfeddol â barddoniaeth Dylan Thomas, er enghraifft, wedi tarddu o rywbeth mor sylfaenol yn y lle hwn.

## S MARK GUBB
### ‘AMBITION IS CRITICAL’
CITY BUS STATION
GORSAF FYSUS DINAS

S Mark Gubb’s work is born of an interest in text, language, translation, (mis)communication, cultural identity, mass-information and liminal spaces. For this new work he presents four banners each containing a rough translation of the phrase ‘Ambition is critical’, in the languages of Swansea’s current twin-towns. The translations have been done using an internet translation engine, a tool as likely to confuse communication as it is to aid it. As a statement and sentiment ‘Ambition is critical’ is both honest and ambiguous.

A broader context is leant by the site of the bus station, a point of departure or arrival; the first stop in a bold leap into the unknown or the place to greet a friendly stranger.

Mae gwaith S Mark Gubb yn tarddu o ddidordeb mewn testun, iaith, cyfieithiad, (cam)gyfathrebu, hunaniaeth-diwylliannol, gwybodaeth torfol a gofodau trothwyol. Ar gyfer y gwaith newydd hwn, mae e’n cyflwyno pedwar baner, pob un yn cynnwys cyfieithiad bras o’r ymadrodd, ‘Ambition is Critical’, yn nwy iaith gyfeilldrefau presennol Abertawe. Mae’r cyfieithiad wedi ei wneud drwy ddefnyddio peiriant chwilio ar y rhyngrwyd, offeryn sydd yr un mor debygol o ddrysu darllenwyr ag ydyw i gynorthwyo eu dealltwriaeth.

Fel gosodiad a theimlad, mae ‘Ambition is Critical’ yn onest, ac yn amwys. Mae cyd-destun ehangach hefyd ar gael, yn pwyso ar ochr yr orsaf bysiau, lle cyrraedd neu ymadael; arhosfan cyntaf mewn naid beiddgar i fewn i’r anhysbys, neu’r lle i gwrdd â ddieithryn cyfeillgar.

## LOCWS SCHOOLS 2011
### EXHIBITION ARDDANGOSFA
CIVIC CENTRE
CANOLFAN DDINESIG

This Locws Schools exhibition presents a collection of artworks by pupils from Ysgol Crug Glas , Ysgol Gymraeg Felindre, Ysgol Pen-y-Bryn, Pen-y-Fro Primary School and Seaview Primary School, which were made as a response to artwork in Locws International’s ‘Art Across The City’ event in April and May 2011.

Locws Schools is an educational art project run in conjunction with Arts in Education, which sees pupils from local schools guided around the ‘Art Across The City’ events by artist David Marchant who explains the ideas and processes of making the work. The pupils then create their own art projects inspired by what they have seen and learned. These artworks are then displayed in a public exhibition and emulate the principles of the Locws International event that has inspired them.

Mae arddangosfa Ysgolion Locws yn cyflwyno casgliad o waith celf gan ddisgyblion o Ysgol Crug Glas, Ysgol Gymraeg Felindre, Ysgol Pen-y-Bryn, Ysgol Gynradd Pen-y-Fro ac Ysgol Gynradd Seaview, a wnaed fel ymateb i waith celf digwyddiadau ‘Celf ar draws y Ddinas’ gan Locws Rhyngwladol yn Hydref 2010.

Mae Ysgolion Locws yn brosiect celf addysgiadol mewn cydweithrediad â Celf Mewn Addysg, lle mae disgyblion ysgolion lleol yn cael eu harwain mewn digwyddiadau ‘Celf ar draws y Ddinas’ gan yr artist David Marchant, sy’n egluro’r syniadau a’r broses o wneud y gwaith. Yna mae’r disgyblion yn creu eu prosiectau celf eu hunain, wedi’u hysbrydoli gan yr hyn a welwyd ac a ddysgwyd.